Chwaraeon RhCT

# Ollie a Billy

## Ysgol Gynradd Maes-y-coed




Mae dau o'n Llysgenhadon Ifainc gwych o Ysgol Gynradd Maes-y-coed yn gwirfoddoli yn ystod pedwar o'u hamseroedd cinio bob wythnos i helpu gyda gweithgareddau chwarae a gweithgarwch corfforol ar yr iard. Mae eu hymrwymiad, brwdfrydedd a pharodrwydd i wirfoddoli wedi helpu i greu profiad mwy cynhwysol a chadarnhaol sy'n annog cynifer o ddisgyblion i wneud rhagor o ymarfer corff yn ystod amser cinio. P'un a ydyn nhw'n trefnu gemau, annog disgyblion i gymryd rhan neu'n gosod esiampl gadarnhaol i eraill, rydyn ni'n gwerthfawrogi effaith eu gwaith gwirfoddoli. Mae eu hymroddiad yn gwneud gwahaniaeth, a dylen nhw fod yn falch iawn o bopeth maen nhw'n ei wneud. Maen nhw eisoes wedi cwblhau 115 o oriau gwirfoddoli eleni.

"Dau fachgen anhygoel, sydd bellach yn fwy hyderus mewn ffyrdd gwahanol. Maen nhw'n trin y plant iau â pharch ac wedi dod yn esiamplau gwych yn ein hysgol. Maen nhw wedi chwarae pob math o gemau gyda'r plant, megis golau coch/golau gwyrdd, hopsgots, parasiwtiau a gemau syrcas. Ond eu hoff gêm ar hyn o bryd yw 'cornhole'. Athro/Athrawes

"Rydyn ni wedi dysgu sut i annog grŵp mawr o blant i chwarae gyda'i gilydd heb gweryla, a sut i esbonio'r rheolau fel bod pawb yn eu deall." Llysgennad Ifanc

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - MAI 2026**

Chwaraeon RhCT Sport RCT | sportwales chwaraeoncymru | YOUTH SPORT TRUST | RHONDDA CYNON TAF